



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Teilo Sant
Stryd Rhosmaen
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6LU**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Teilo Sant yn nhref Llandeilo, Sir Gaerfyrddin ac yn gwasanaethu'r dref a'r ardal gyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw tua 58% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin, yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 222 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir mewn wyth dosbarth gan wyth athro amser llawn ac un rhan-amser.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 19% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na chanran Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Ebrill 2007. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Teilo Sant yn 2015-2016 yn £3,136. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a'r lleiafswm yw £3,111. Mae Ysgol Teilo Sant yn y 100fed safle allan o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda
- safon medrau allweddol y disgyblion yn dda a bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn uchel a bron pob un disgybl yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- yr addysgu yn gyson dda neu'n well
- yr ysgol yn cynllunio gwaith ysgogol, sydd yn tanio brwdfrydedd ac yn ysgogi pob disgybl
- gan yr ysgol ethos teuluol, gofalgarn a chroesawgar iawn, ble mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn cael eu trin â pharch

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth flaengar y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol sydd yn seiliedig ar hybu safonau uchel
- disgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol wedi eu rhannu'n llwyddiannus â staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr
- pob aelod o staff yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn deall eu rôl wrth weithredu cynlluniau'r ysgol
- y llywodraethwyr yn herio'r ysgol am ei pherfformiad yn gyson gadarn
- diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion, wedi gwreiddio'n ddwfn ym mywyd bob dydd yr ysgol
- cydweithio effeithiol gydag ystod eang o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion

Argymhellion

- A1 Codi safonau mathemateg y disgyblion mwy abl yn y Cyfnod Sylfaen
- A2 Codi safonau Saesneg a mathemateg y disgyblion mwy abl yng ngyfnod allweddol 2
- A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae asesiadau sylfaen ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau amrywiol, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i ryw hanner ohonynt. Fodd bynnag, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau, gan ddefnyddio iaith raenus a chywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Mae gan y rhan fwyaf iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda rhuglder a mynegiant. Gall y rhan fwyaf drafod eu hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod eu hoff lyfrau'n aeddfed yn ogystal â'u hoff awduron. Defnyddiant eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwilol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu darnau ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn creu erthygl papur newydd am bentref eco ac yn ysgrifennu monolog fel un o gymeriadau allan o'r llyfr 'The Lion, the Witch and the Wardrobe'. Mae'r rhan fwyaf yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Erbyn brig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Maent yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n hyderus i gyfoethogi'r gwaith. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosu syml yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn bwrpasol iawn ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft drwy gasglu gwybodaeth

am hoff fwydydd y disgyblion a'i chyflwyno ar graff bar a dehongli'r wybodaeth yn gywir. Maent yn defnyddio offer ac unedau mesur safonol yn fedrus mewn amrywiaeth o dasgau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar fedrau rhifedd. Maent yn hyderus yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a llusoi, wrth ddatrys problemau geiriol a phroblemau rhesymu rhif. Mae llawer yn trin ffracsiynau, degolion a chanrannau yn ddeallus. Maent yn cymhwyso'u medrau'n dda iawn ar draws y cwricwlwm, er enghraifft drwy drefnu bwyd ar gyfer parti a'i gyflwyno'n gywir ar daenlen. Maent yn hyderus wrth drin a thrafod data ac yn creu graffiau llinell a diagramau Venn i gyflwyno eu canfyddiadau. Mae disgyblion mwy abl yn trosi gwerth arian o wahanol wledydd ac yn amseru a chyfrifo cost taith o Lundain i Qacha's Nek yn Lesotho yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ddychmygus iawn mewn ystod o gydestunau. Er enghraifft, maent yn animeiddio, codio a chreu fideos er mwyn i rieni i wella eu dealltwriaeth o ddulliau dysgu y pedair rheol mewn mathemateg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol yn gyson uwch na'r canolrif mewn medrau iaith a mathemateg o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) mewn llythrennedd wedi bod yn gyson uwch na'r canolrif ond wedi amrywio mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol yn gyson uwch na'r canolrif mewn medrau Cymraeg, Saesneg, a gwyddoniaeth o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn mathemateg, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y lefel uwch yn y Gymraeg wedi bod yn gyson uwch na'r canolrif. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi amrywio ond wedi bod yn is na'r canolrif mewn mathemateg a Saesneg bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae disgyblion wedi gwneud cynnydd amlwg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae niferoedd y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi bod yn fach, felly mae unrhyw gymhariaeth synhwyrol rhyngddynt a disgyblion eraill yn annibynadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig. Ar y deilliant uwch yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r merched yn tueddu i berfformio'n well na'r bechgyn mewn llythrennedd, gyda'r bechgyn yn perfformio'n well na'r merched mewn datblygiad mathemategol. Ar y lefel uwch yng nghyfnod allweddol 2, ar wahân i fathemateg, mae'r merched yn tueddu i berfformio'n well na'r bechgyn.

Lles: Rhagorol

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel gan oedolion yn yr ysgol. Maent yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff os oes ganddynt bryderon. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o gadw'n heini.

Mae safon ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron bob un disgybl yn uchel. Maent yn dangos parch mawr at ei gilydd ac at oedolion. Maent i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n hynod o effeithiol. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith, gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Nodwedd ardderchog yw dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol o'u cryfderau a'r gallu i egluro'n hyderus yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith mewn iaith a mathemateg.

Mae aelodau'r cyngor ysgol, cyngor eco a'r cyngor digidol yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned ysgol. Maent yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad i sawl agwedd o fywyd yr ysgol. Enghraifft arbennig o hyn yw rôl y cyngor digidol wrth roi arweiniad, nid yn unig i ddisgyblion eraill, ond hefyd i aelodau'r staff os ydynt yn cael unrhyw anhawster gyda'u medrau TGCh. Maent hefyd yn monitro'n ofalus iawn os oes unrhyw gamddefnydd o'r dechnoleg.

Trwy gymryd rhan frwdfrydig mewn sawl gweithgaredd cymunedol, mae disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac wedi bod yn uwch na'r canolrif yn gyson am bedair blynedd o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith ysgogol, sydd yn tanio brwdfrydedd ac yn ysgogi pob disgybl. Maent yn ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau diddorol y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. O ystried tirwedd yr ysgol, mae darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn ardderchog. Agwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r trefniant creadigol iawn a wneir o rannu ardaloedd dysgu. O ganlyniad, mae hyd yn oed y disgyblion ieuengaf yn fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol yn hyderus wrth ddewis a symud o un gweithgaredd i'r llall a hyn heb fawr o arweiniad gan oedolion.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei ymgorffori'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae hyn yn nodwedd gref sy'n arwain at gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau iaith a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fe geir enghreifftiau da iawn mewn gwaith hanes a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion o ansawdd uchel iawn ac yn sicrhau cynnydd a dilyniant amlwg wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn hyderus iawn wrth ddefnyddio rhaglenni addas i lunio gemau, a chreu fideos a llyfrau rhyngweithiol. Mae disgyblion mwy abl yn fedrus iawn wrth greu rhaglenni cyfrifiadurol.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus trwy drefnu ymweliadau a gwahodd ymwelwyr i'r ysgol. Mae gweithgareddau allgyrsiol, fel ymweld â chanolfan breswyl Llangrannog a Phlas Tan y Bwlch, yn cyfrannu'n dda at brofiadau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg o safon ardderchog. Trwy greu ethos hynod o gadarnhaol a hyrwyddo cyson yr holl staff, mae darpariaeth yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd yr holl ddisgyblion tuag at yr iaith. Mae'r pwyslais cyson ac effeithiol ar sicrhau ansawdd uchel iawn iaith lafar y disgyblion yn nodwedd gref o waith yr ysgol ac fe gaiff hyn ei adlewyrchu o fewn y dosbarthiadau ac ar y buarth. Trwy waith trawsgwricwlaidd ac ymweliadau a chyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau, caiff y disgyblion brofiadau diddorol i ddysgu am eu hardal ac am hanes a diwylliant Cymru. Mae hyn wedi arwain at lwyddiant ardderchog y disgyblion dros nifer o flynyddoedd mewn eisteddfodau cylch, sir a chenedlaethol.

Trwy ystod eang o weithgareddau cyfoethog, mae disgyblion yn cael cyfle i ddysgu sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae'r cyngor eco yn rhoi cyfleoedd ardderchog i gydweithio gyda disgyblion ar draws yr ysgol, a thrwy eu gwaith diwyd a dyddiol, maent yn sicrhau bod yr ysgol gyfan yn ailgylchu gymaint â phosibl ac yn arbed ynni a dŵr. Mae aelodau'n cynnal archwiliad cyson o ddosbarthiadau gwag ac yn rhoi gwobr wythnosol i'r dosbarth sy'n ailgylchu ac yn arbed ynni orau.

Rhoddir cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu dangos empathi am fywydau pobl mewn gwledydd eraill, fel Lesotho.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well ym mhob dosbarth. Mae pob athro yn defnyddio amrywiaeth ddiddorol o ddulliau addysgu sy'n ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion yn dda. Maent yn rhannu amcanion dysgu yn glir ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn gyson yn ystod y gwersi. Mae athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae cyflwyniadau'r gwersi'n fywiog gyda chyflymder da. Fodd bynnag, mae tueddiad yng nghyfnod allweddol 2 i or-arwain y disgyblion ar brydiau. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda phlant ac oedolion eraill sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae'r disgyblion i gyd yn deall hyn. O ganlyniad, maent yn cyflawni safonau da.

Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol, gyda phob aelod o staff yn modelu iaith yn effeithiol iawn.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae enghreifftiau da o farcio pwrpasol ac mae sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau y disgyblion. Mae athrawon yn annog disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella

eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athro. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnwys iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd rhagorol o ddeilliannau profion safonol ac asesiadau athrawon. O ganlyniad, mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod tasgau priodol er mwyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae trefniadau dychmygus ar gyfer adrodd i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plant ac maent yn bodloni'r gofynion statudol yn llawn.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Cefnogir hyn yn dda drwy ddigwyddiadau fel yr 'Wythnos Ffrwythau' a chlybiau coginio a chwaraeon.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin a'i gilydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ardderchog. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan, yn darparu cymorth yn briodol, ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson ac yn effeithiol. Mae staff yn gofalu bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni pan fyddant yn eu hadolygu. Dengys system olrhain cynnydd drwyadl yr ysgol fod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn dros amser.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o asiantaethau arbenigol, fel y gwasanaeth cwnsela, sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae unigolion yn cael gofal o'r ansawdd orau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ethos teuluol sy'n bodoli ynddi. Mae'n gymuned gynhwysol a chroesawgar iawn, lle teimla'r disgyblion yn ddiogel a hapus.

Mae pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm eang i'r holl ddisgyblion. Mae parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus drwy waith amrywiol, gan gynnwys astudio gwledydd.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd uchel yn yr ysgol, yn enwedig y cyfarpar ar gyfer TGCh. Maent yn cael eu defnyddio'n hynod effeithiol i sicrhau bod medrau'r disgyblion yn datblygu i safon uchel iawn. Mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd diddorol sy'n cefnogi'r dysgu'n effeithiol. Mae gwaith disgyblion a welir o gwmpas yr ysgol yn ennyn balchder yn eu gwaith a'u llwyddiannau.

Mae adeilad yr ysgol yn hen gydag ychwanegiadau o gabannau ers yr arolygiad diwethaf. Er mai cyfyng yw'r gofod yn nosbarthiadau cyfnod allweddol 2 ar gyfer y nifer y disgyblion, fe wneir defnydd effeithiol ohonynt. Mae'r manau dysgu allanol wedi eu datblygu mewn modd creadigol er mwyn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae'r disgyblion. Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae'r safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'n dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu staff a hybu cydweithio a rhannu arfer dda tu mewn a thu hwnt i'r ysgol.

Mae mentora a datblygiad staff yn gryfder amlwg ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer swyddi arwain yn y dyfodol. Mae nifer o athrawon yn ymweld ag ysgolion eraill yn rheolaidd i gynghori ar egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac i rannu datblygiadau'r fframwaith digidol newydd.

Mae gan holl arweinwyr yr ysgol rolau a chyfrifoldebau clir o fewn trefniadau rheoli. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol iawn â'i gilydd ac yn herio tanberfformio'n gyson ac yn gosod disgwyliadau uchel iawn ar gyfer yr holl staff a disgyblion.

Mae pob aelod o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol. Maent yn cydweithio'n agos iawn ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. Defnyddiant yr holl wybodaeth monitro yn effeithiol wrth ymateb i welliannau a nodir yng nghynllun datblygu'r ysgol. Er enghraifft, mae'r drefn o ddadansoddi asesiadau a gosod targedau unigol ar gyfer pob disgybl yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn iawn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon ac maent yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol ac yn annog gwelliannau parhaus. Er enghraifft, mae'r ffocws ar wella cyrhaeddiad disgyblion uwch eu gallu mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos gwelliant amlwg.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn ymweld yn rheolaidd â'r ysgol i arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a thrafod gyda disgyblion. Maent yn paratoi adroddiadau trylwyr iawn sy'n manylu ar gynnwys gwersi a llyfrau yn ogystal â safon gwaith disgyblion. Mae'r drefn o ddadansoddi asesiadau yn arloesol ac yn eu galluogi i ddod i farn gadarn ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion ac i herio'r ysgol am ei pherfformiad. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn ardderchog i gyfrannu at osod cyfeiriad strategol clir yn ogystal â chyfrannu'n effeithiol iawn at y broses o lunio adroddiad hunanarfarnu, gosod targedau a chreu cynllun datblygu ysgol effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn bositif i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel y siarter iaith, datblygu grŵp arloeswyr digidol, a disgygliadau'r cwricwlwm newydd.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n fanwl ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio'n ddwfn ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae'n broses fyw ac effeithiol iawn sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn hynod lwyddiannus.

Mae systemau cadarn iawn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi'n ofalus ddata perfformiad cymharol yr ysgol, deilliannau, trefniadau asesu mewnol, craffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith, ac arsylwi gwersi'n rheolaidd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda iawn ac yn mynd i'r afael â gwelliannau yn gyflym a llwyddiannus. Mae'r athrawon a'r staff i gyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r modd y mae'r ysgol yn cynnwys barn disgyblion ar ddysgu ac addysgu yn nodweddiadol arbennig. Maent yn cael cyfleoedd i ymateb i gwestiynau, er enghraifft ar agweddau megis, a yw marcio yn cysylltu gyda'r meini prawf llwyddiant ac a yw sylwadau'r athro o gymorth iddynt i wybod sut i wella eu gwaith. Mae athrawon yn rhoi sylw teilwng i ymatebion y disgyblion ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu dealltwriaeth o ba mor dda maent yn ei wneud.

Mae pwyslais cryf gan yr ysgol ar sicrhau bod gan rieni rôl weithredol yn yr holl brosesau i fonitro cynnydd disgyblion drwy ddatblygu rhaglen arloesol TGCh ddigidol. Er enghraifft, mae pob disgybl yn creu portread o'u hunain ar lwyfan digidol sy'n cynnwys enghreifftiau o bob agwedd o'u gwaith a gyfeirir ato yn yr adroddiad i rieni ar gynydd eu plant. Mae hyn yn arfer flaengar ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth rhieni o'r safonau mae eu plant yn eu cyflawni.

Dan arweiniad y pennaeth a'r uwch dîm rheoli, mae'r ysgol yn adnabod blaenoriaethau gwella sy'n gwbl addas i anghenion yr ysgol, ac sy'n rhoi'r sylw pennaf i ddeilliannau disgyblion. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu ac yn manylu'n rhesymegol ar y prif flaenoriaethau. Mae'n ddogfen gryno a chlir gyda nifer addas o flaenoriaethau i weithredu arnynt dros dair blynedd. Mae'r cynlluniau a'r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldeb monitro a gwerthuso effeithiolrwydd, yn glir.

Mae gallu'r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn llwyddiannus ac wedi arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid mewn modd sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni ac aelodau o'r gymuned. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar iawn ac yn cefnogi'r ysgol yn ymarferol ac yn ariannol. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant amlwg yng nghyflenwad ei hadnoddau, fel adnoddau ar gyfer TGCh a datblygu'r ardal allanol.

Mae staff yn hysbysu rhieni'n dda am weithdrefnau'r ysgol, drwy ddefnyddio'r wefan, anfon negeseuon testun a llythyru rheolaidd. Mae'r trefniant o gyfathrebu gyda rhieni drwy system electronig o wobrwyo ymddygiad da wedi gwella eu dealltwriaeth, er enghraifft, o bolisi ymddygiad yr ysgol.

Drwy sefydlu ethos agored a chroesawgar, mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda'r gymuned leol. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyngherddau, eisteddfodau a gweithgarwch mewn eglwysi a chapeli lleol, sy'n atgyfnerthu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gweithredu'n briodol o fewn eu cymuned.

Mae system effeithiol o gymedroli wedi ei sefydlu gydag ysgolion eraill i gynhyrchu proffiliau pwrpasol a defnyddiol i gynorthwyo athrawon wrth iddynt safoni gwaith y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae cysylltiadau buddiol gydag ysgolion meithrin lleol a'r ysgol uwchradd leol. Mae'r rhain yn effeithiol wrth helpu disgyblion drosglwyddo'n esmwyth rhwng un sector a'r llall ac wrth baratoi'r disgyblion yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Rheoli adnoddau: Da

Mae nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o'u harbenigedd, er enghraifft mewn TGCh, chwaraeon a cherddoriaeth, ac mae'r ymdeimlad o dîm addysgu yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, i weithio ar y cyd ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae cynorthwywyr yn cynnig cefnogaeth dda i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff, trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Mae'r rhain wedi cael effaith dda ar safonau ysgrifennu a rhifedd y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r amrediad da o adnoddau safonol yn cael eu rheoli'n bwrpasol ac mae'r Cyfnod Sylfaen yn elwa'n fawr o'r amgylchedd allanol ysgogol. Mae cynllunio pwrpasol yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 weithio yn yr ardal allanol ble maent wedi cynllunio gardd i dyfu llysiau ac i ddenu natur gwylt. Mae hyn yn gwella eu hymwybyddiaeth o'r byd natur o'u cwmpas.

Nodwedd gref yw blaengaredd yr ysgol mewn rhwydweithiau dysgu sy'n cynnig ystod o gyfleoedd i ysgolion gydweithio ac i ddatblygu strategaethau newydd, fel darpariaeth i ymestyn a herio disgyblion mwy abl. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â datblygu medrau technoleg gwybodaeth ddigidol disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella. Mae defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gynnal disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at welliant amlwg yn eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6692183 - Ysgol Teilo Sant

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	209
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	0.6
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	27	32	27	28
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	100.0	100.0	96.3	100.0
Chwarter meincnod	1	1	2	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	27	32	27	28
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	96.3	100.0
Chwarter meincnod	1	1	2	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	44.4	50.0	44.4	46.4
Chwarter meincnod	1	1	2	2
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	27	32	27	28
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	96.3	100.0
Chwarter meincnod	1	1	2	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	40.7	40.6	37.0	42.9
Chwarter meincnod	1	2	3	3
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	27	32	27	28
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	85.2	75.0	66.7	78.6
Chwarter meincnod	1	2	2	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6692183 - Ysgol Teilo Sant

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

209

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

0.6

Grŵp PYD

1 (PYD<=8%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	31	28	25	20
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	93.5	92.9	100.0	95.0
Chwarter meincnod	2	3	1	3
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	31	28	25	20
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.8	96.4	100.0	95.0
Chwarter meincnod	2	2	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	29.0	28.6	36.0	40.0
Chwarter meincnod	4	4	3	3
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	31	28	25	20
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	48.4	46.4	48.0	45.0
Chwarter meincnod	1	2	2	2
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	31	28	25	20
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.8	92.9	100.0	95.0
Chwarter meincnod	2	3	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	38.7	39.3	44.0	40.0
Chwarter meincnod	3	3	3	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	31	28	25	20
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.8	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	3	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	35.5	32.1	48.0	50.0
Chwarter meincnod	3	4	2	3

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	111	108 97%	3 3%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	111	100 90%	11 10%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	111	109 98%	2 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	111	103 93%	8 7%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	111	93 84%	18 16%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	111	108 97%	3 3%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	111	110 99%	1 1%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	111	110 99%	1 1%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	110	98 89%	12 11%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	111	96 86%	15 14%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	111	85 77%	26 23%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	111	84 76%	27 24%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	71	41 58%	30 42%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	71	55 77%	15 21%	1 1%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	71	56 79%	14 20%	1 1%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	70	38 54%	29 41%	3 4%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	68	37 54%	31 46%	0 0%	0 0%	3	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	70	40 57%	30 43%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	71	42 59%	29 41%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	66	31 47%	31 47%	3 5%	1 2%	4	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	67	39 58%	22 33%	3 4%	3 4%	4	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	70	45 64%	24 34%	1 1%	0 0%	1	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	70	48 69%	22 31%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	56	27 48%	27 48%	1 2%	1 2%	12	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	71	30 42%	36 51%	4 6%	1 1%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	71	39 55%	28 39%	2 3%	2 3%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	70	34 49%	32 46%	2 3%	2 3%	1	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		49%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	68	40 59%	28 41%	0 0%	0 0%	2	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	57	29 51%	25 44%	3 5%	0 0%	9	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	70	35 50%	34 49%	1 1%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		55%	39%	6%	1%		
The school is well run.	71	42 59%	28 39%	0 0%	1 1%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mervyn Jones	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Buddug Bates	Arolygydd Cymheiriaid
Roy James	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.